

# Galwad am Fynegi Diddordeb

## Cynnig gwell i ysgolion uwchradd gan gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

**Mae'n bleser gan Gyngor Celfyddydau Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, gyhoeddi cyfle newydd i ysgolion uwchradd sydd wedi gweithio gyda chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.**

Gwahoddwn y fath ysgolion uwchradd i weithio gyda gweithwyr creadigol i ymgorffori dysgu creadigol ar draws Meysydd Dysgu eraill yn yr ysgol a gwella eu dysgu proffesiynol nhw ac ymbaratoi at y Cwricwlwm i Gymru.

Bydd y ffocws ar ddysgu proffesiynol yn y prosiect. Bydd yr ysgolion llwyddiannus yn gweithio gyda gweithwyr creadigol i gydgynllunio a rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

Er 2015, mae'r cynllun wedi gweithio gyda 113 ysgol uwchradd ledled Cymru gan hyfforddi dros 300 athro i gydweithio â phobl greadigol i ddatblygu dysgu creadigol yn eu hysgol.

#CreativeLearningWales

Bydd yn eich cefnogi i wneud y canlynol:

- cydweithio â gweithwyr creadigol i ymgorffori dysgu creadigol ymhellach yn y Maes Dysgu a Phrofiad gwreiddiol ac ym Meysydd eraill
- cydgynllunio'r rhaglen i ymateb i anghenion yr athrawon
- gwireddu eich blaenoriaethau datblygu ysgol gan ganolbwyntio ar flwyddyn 7 ac 8
- trawsnewid addysg gan ei gwneud yn fwy myfyriol
- rhwydweithio gydag ysgolion uwchradd eraill ledled Cymru
- cynorthwyo eich ysgol i fod yn barod at y Cwricwlwm i Gymru, 2022

Cewch arian i archwilio:

- talu Ymarferwyr Creadigol i gydweithio a chydgynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol gydag athrawon a disgyblion
- rhyddhau athrawon i fynd i ddyddiau rhwydweithio/cyd-ddatblygu i rannu'r gwersi a ddysgwyd a dysgu gan eraill
- prynu deunyddiau i gynnal y prosiect

## Arian

Bydd ysgolion yn gwneud cais i ymuno â'r cynnig gwell i ysgolion uwchradd am dri thymor (gwanwyn, haf a hydref 2021) a chael grant o £8,000.

Bydd ysgolion llwyddiannus yn sefydlu rhwydwaith o ymarferwyr i gynllunio rhaglen waith yn unol â'u hanghenion a'u datblygiad proffesiynol.


Rhaid iddynt ddangos ymrwymiad i'r cynllun a'u datblygiad proffesiynol.

Bydd y grant yn talu am eu gwaith prosiect yn ystod y cynnig.

Meini prawf bod yn gymwys i ymgeisio:

Mae ar gael i unrhyw ysgol uwchradd sydd wedi cael grant o gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Ni fydd unrhyw ysgol uwchradd sy'n cymryd rhan yn y llinyn hwn yn gymwys i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd Ysgolion Creadigol Arweiniol arall.



Yr ymrwymiad gan ysgolion:

- rhoi amser i athrawon sy'n cymryd rhan i fyfyrio, cynllunio a gwerthuso gyda'r holl gyfranogwyr a'u cefnogi i arbrofi a datblygu eu hymarfer
- cynnwys athrawon a disgyblion fel partneriaid gweithredol yn y dysgu wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso
- gadael i gydlynydd yr ysgol ac athrawon sy'n cymryd rhan fynychu hyd at bum cyfarfod cynllunio a rhwydweithio (bydd y grant yn talu am gostau cyflenwi)
- bod y pennaeth a'r uwch dîm arwain yn cefnogi'r cynllun yn weithredol
- defnyddio gwersi'r prosiect i lywio cynllun datblygu'r ysgol ac ymbaratoi at y Cwricwlwm i Gymru, 2022

## Sut i wneud cais

Llenwch Fynegiant o Ddiddordeb (sy'n atodedig). **1 Chwefror 2021** yw'r dyddiad cau.

E-bostiwch dysgu.creadigol@celf.cymru gyda Gwell Cynnig i Ysgolion Uwchradd yn y teitl.

Byddwn ni'n rhoi gwybod ichi am y canlyniad erbyn yr wythnos sy'n dechrau **22 Chwefror 2021.**

Cysylltwch â ni gydag unrhyw gwestiynau:

sophie.hadaway@celf.cymru
dan.allen@celf.cymru
hannah.greys@celf.cymru

# Cynnig uwchradd – cwestiynau ffurflen gais/mynegiant o ddiddordeb sydd eu hangen:

1. School details - school name, address, original School Coordinator contact details etc

2. Rhowch grynodeb byr o'ch profiad fel Ysgol Greadigol Arweiniol hyd yma
(250 gair ar y mwyaf)

3. Pa ddulliau dysgu creadigol rydych wedi'u gweithredu ers y cynllun?
(250 gair ar y mwyaf)

4. Pa anawsterau rydych chi wedi'u cael o ran ymgorffori dysgu creadigol naill ai yn eich Maes Dysgu a Phrofiad neu'n ehangach yn yr ysgol? Sut rydych chi'n rhagweld y bydd y cynnig yn eich cynorthwyo i ymgorffori dysgu creadigol ymhellach yn eich ysgol?
(500 gair ar y mwyaf)

5. Sut rydych chi'n rhagweld datblygu dysgu creadigol yn eich ysgol i ymbaratoi at y Cwricwlwm i Gymru? (250 gair ar y mwyaf)

6. Sut y bydd y cynnig yn ategu eich perthynas chi â dysgu proffesiynol a pherthynas eich cydweithwyr a'r staff yn ehangach? (350 gair ar y mwyaf)

7. Cynhwyswch ddatganiad ategol gan y pennaeth.

**1 Chwefror 2021** yw'r dyddiad cau. E-bostiwch dysgu.creadigol@celf.cymru gyda Gwell Cynnig Ysgolion Uwchradd yn y teitl.